RHAID DWEUD NA WRTH FIL-WREIDDIO GORLLEWIN CYMRU

Mae'r ymgynghoriad ar y Cerbydau Awyrol Di-Griw sydd ar waith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio ennill cymeradwyaeth gyhoeddus ar gyfer parth profi yn yr awyr uwchben 500 milltir sgwâr o Orllewin Cymru. Mae'r ardal yn cynnwys trefi Aberteifi, Aberaeron, Castellnewydd Emlyn, Llanbed, Tregaron a Llanwrtyd Wells**. Maent am i ni gytuno i'w cynllun drwy bwysleisio ar ddefnydd heddychlon a sifiliad posib o'r CAD a'r buddiannau i'r economi.**

Hermes 450 UAV

Ond peidiwch a chredu hyn! – Bydd y ffocws milwrol sydd i'r datblygiad CAD ym Mharc Aberporth yn parhau. Bydd y parth hedfan yn caniatáu hediadau drôn CAD milwrol uwch ein pennau ar unrhyw adeg, ddydd neu nos a hynny er mwyn profi eu systemau ysbio, ymosod ac osgoi gwrthdrawiad. Mae tipyn llai o swyddi wedi eu creu na'r hyn sydd wedi ei **addo; a'r swyddi i bobl leol heb ein cyrraedd chwaith.**

Sut y defnyddir y Cerbydau Awyr Di-Griw?

- **Defnyddir CAD Americanaidd** yn Iraq, Afghanistan a Pacistan gan ladd miloedd o ddinasyddion gyda bomiau laser a thaflegrau a reolir yn aml o ganolfan yn Nevada, UDA.
- **Defnyddiodd Israel CAD** yn ei ymosodiad ar y Palestiniaid yn Gaza yn 2008/09. Arddangoswyd y CAD milwrol Israelaidd **Hermes 450** yn gyntaf yn Aberporth yn 2002.
- **Bydd Lluoedd Arfog Prydain** yn defnyddio'r **Hermes 450** fel rhan o'i gynllun £800miliwn, **"Watchkeeper".**

Bro Emlyn dros Heddwch a Chyfiawnder

Ymchwil milwrol CAD

Mae'r mwyafrif o ymchwil CAD yn cael ei wneud i greu y genhedlaeth nesaf o awyrlu di-griw a gwyliadwriaeth awtomataidd. **Bydd y rhan fwyaf o ymchwil ym Mharc Aberporth yn filwrol.**

- **Mae'r parth hedfan arfaethedig yn** cysylltu Parc Aberporth â Mynydd Epynt, lle mae safle ymarfer y Weinyddiaeth Amddiffyn, 35 o filltiroedd i ffwrdd.
- **Mae Parc Aberporth yn cael ei redeg gan QinetiQ –** a fu'n Asiantaeth Gwerthuso Amddiffyn ac Ymchwil. Mae 80% o werthiant bydol QinetiQ yn filwrol.
- **Cynhelir digwyddiad CAD Ewrop yng Nghymru yng Ngorffennaf 2009.** Roedd y cynlluniau gwreiddiol yn cynnwys arddangosfa hedfan ym Mharc Aberporth.
- **O'r 26 o siaradwyr yn nigwyddiad CAD Ewrop 2009,** mae **25** ohonynt naill yn **gwasanaethu neu'n cynrychioli cynhyrchwyr arfau** megis systemau Raytheon Missile, Lockheed Martin Missiles, Northrop Grunman Corporation a systemau Thales Defence. Yn ogystal, bydd cyflwyniad gan gynrychiolydd o Fyddin Amddiffyn Israel.

CAD a ddefnyddiwyd gan Israel mewn ymosodiad ar Gaza

Gwastraffu ein harian

Credwn na ddylid seilio economi gorllewin Cymru ar filwreiddio pellach ac y dylai swyddi tymor hir i bobl leol ddod wrth gyllido prosiectau dinasyddiaeth uwch dechnoleg.

Gellid fod wedi gwario y £9 miliwn sydd eisoes wedi ei roi i QinetiQ gan Lywodraeth y Cynulliad yn fwy effeithiol ar ddefnydd heddychlon o CAD neu ddatblygu technolegau megis **egni cynaliadwy** neu systemau cynhyrchu**.**

Myth creu swyddi

- **Yn 2004,** proffwydodd Asiantaeth Datblygu Cymru y byddai 230 o swyddi "yn y tymor byr" ym Mharc Aberporth.
- **Yn 2009,** mae 18 o bobl yn gweithio yno, 10 ohonynt yn bobl leol.

Mae ***swyddi am unrhyw bris*** *yn ddigon gwael, ond* **dim swyddi am yr un pris** *yn waeth fyth.* Mae angen swyddi tymor hir sy'n datblygu **technoleg i roi bywyd**, nid **technoleg i ddifetha bywyd.**

Beth allwch chi ei wneud?

- Dewiswch "Dim un o'r opsiynau" ar y "**Ffurflen sylwadau Ymgynghori**" a nodwch eich rhesymau. Gellir llawrlwytho ffurflenni o wefan Llywodraeth y Cynulliad. http://tinyurl.com/nuogsh
- Mae pob AS lleol ac aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi gweithgarwch milwrol Parc Aberporth a'r parth hedfan CAD arfaethedig. Ysgrifennwch atynt gan nodi eich bod yn anghytuno â hwy. Gofynnwch iddynt gynrychioli eich barn chi, yn hytrach na'u barn nhw.

Published by Bro Emlyn for Peace and Justice. www.bepj.org.uk